**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Lorne Campbell
Cyfarwyddwr Artistig

Sharon Gilburd
Cyd-gadeirydd

Yvonne Connikie
Cyd-gadeirydd
National Theatre Wales

15 Tachwedd 2023

**Canlyniad Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru 2023**

Annwyl Lorne, Sharon ac Yvonne

Diolch am eich llythyr at y Pwyllgor (dyddiedig 6 Hydref 2023) ynghylch canlyniad Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru 2023. Bu'r Pwyllgor yn trafod eich llythyr yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2023.

Mae'r Pwyllgor yn deall yr heriau y mae Theatr Genedlaethol Cymru yn eu hwynebu yn dilyn penderfyniad adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru. Tra bod proses apelio yn mynd rhagddi, ni fyddai'n briodol i'r Pwyllgor wneud sylwadau'n gyhoeddus ar y penderfyniadau a wnaed gan gorff sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ond deallwn fod disgwyl i'r broses hon ddod i ben yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn y cyfamser, byddwn yn fodlon cwrdd â chi yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor. Byddaf yn gofyn i swyddogion gysylltu â chi i drefnu amser addas i hyn ddigwydd.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.